---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth,17eg Hydref 2017.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury

**Ymddiheuriadau:** Dim

**1. Datganiad o ddiddordeb:** Dim

**2. Cofnodion cyfarfod o 19eg o Fedi 2017:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

**3. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. **Cae Chwarae:** Roedd Steve Griffiths o McVenture Play Co, Llangefni wedi ymweld â'r cae chwarae a byddai'n darparu dyfynbris ar gyfer codi'r teils a rhoi wyneb rwber 'wet pour' yn ei le a hefyd am ddefnyddio 'wet pour' i lenwi'r bylchau. Roedd y gost am roi wyneb newydd o dan y siglenni yn debygol o fod oddeutu £ 4,500 i £ 5,000. Roedd hefyd wedi awgrymu bod angen gwneud rhywfaint o waith ar waelod y sleid.

2. **Llochesi Bws:** Cafodd Cyng. Victor Owen a'r Clerc gyfarfod gyda'r contractwr oedd wedi gwneud gwaith ar y lloches bws yn Llanfihangel yn Nhowyn, a daeth yn amlwg mae'r cwbl a wnaethant oedd rhoi dwy sgriw newydd i ddal y panel yn ei le. Fe ddisodlwyd y rhain o fewn diwrnod am nad oeddent yr un rhai a'r rhai gwreiddiol. Penderfynwyd: atal y taliad am ei fod yn ormod o bris am y gwaith a hwnnw ddim yn iawn.

3. Seddi Gwag: cafwyd caniatâd i gyfethol etholwyr i bedair sedd wag.

4. **Gwaith cynnal - Stad Treifan** - cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i Dylan Roberts a fyddai yn fodlon cael golwg ar y wal.

5. **Bwrdd Gofalwyr y Towyn** - Nodwyd fod y Bwrdd yn bryderus am gyflwr y lon i lawr i Draeth Cymyran a bod angen gwella'r arwyneb ger Pont "Bailey". Awgrymwyd ystyried trin y lon i lawr i'r traeth a rhannu'r gost rhwng y Bwrdd Gofalwyr, y Cyngor Cymuned, Y Cyngor Sir a thrigolion y tai agosaf i'r traeth fel y gwnaethpwyd yn y gorffennol.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

6. Unrhyw fater arall yn codi o’r cofnodion - dim.

**4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

**5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd
2. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cadarnhad o ddyddiadau'r cyfarfod. Nodwyd bod yr un nesaf yn cyd-fynd â chyfarfod Cyngor Cymuned Tachwedd.

**6. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 30.9.2017 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

**Yn y banc ar 17.10.2017 Cyfrif Cyfredol £11,052.71, Cyfrif Cadw £3,922.28**

**<u>Taliadau i’w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Medi) | £179.92 | HMRC (TWE) | £45.00 |
| GMS | £182.40 | Arolwg Offer Chwarae | £40.00 |
| William Evans and Sons Ltd. | £456.00 | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

7. **Cyfrifon 2016/17**

Roedd yr Archwilwyr Allanol wedi cyhoeddi tystysgrif ddiamod ar gyfer 2016/17 ynghyd â’ Rhybudd o Ganlyniad yr Archwiliad. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol a'r adroddiad i'r Cyngor heb unrhyw faterion arwyddocaol.

**8. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data - Briffio Cyfreithiol gan NALC yn darparu gwybodaeth bwysig am newidiadau i'r ddeddfwriaeth diogelu data, roedd yr Aelodau'n ymwybodol o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a byddai'r Clerc yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.
2. Adroddiad Blynyddol Drafft RPW - cyfeiriodd adran 13 yr adroddiad hwn at daliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref. Byddai'r clerc yn trefnu i bob aelod dderbyn copi.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

3. Ymgynghoriad: Canllaw i Brif Gynghorau
4. Bwletin Un Llais Cymru - byddai'r clerc yn dosbarthu dwy erthygl addysgiadol una ar iechyd a diogelwch a’r llall ar sut i ddewis Archwilydd Mewnol.
5. Dyddiadau Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru
6. Llythyr a dderbyniwyd gan drigolyn lleol yn gofyn i'r Cyngor Cymuned godi lloches bws gyferbyn â Preswylfa, Caergeiliog. Cytunwyd nad oedd gan y Cyngor yr arian ar ei gyfer. Nid oedd arian ar gael gan CSYM ar hyn o bryd chwaith.

**9. Unrhyw fater arall**

Nodwyd: Bod gwaith adnewyddu ar Sail yr Awyrlu bellach wedi'i gwblhau.
Penderfynwyd: ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd IOACC yn gofyn iddynt sicrhau bod Ffordd Cymyran yn cael ei arolygu a bod yr holl ddifrod yn cael ei wneud yn dda gan y contractwyr fel yr addawyd.

**10. Cyfarfod nesaf 21ain o Dachwedd 2017.**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….